

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG
GYNHALIWYD YN Y NEUADD 9 IONAWR 2025 AM 7.30YH**

1. Yn bresennol: Y Cyng Nicola Jones (Cadeirydd), Philip Davies, Meinir James, Elfyn Williams, Janet Knott, Rheinallt Jones, Shan Rees, Jenny Jones, Eifion Jones, Cynghorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc).

Ymddiheuriadau: Y Cyng Carys Thomas a Viv Davies

2. Datganiadau Diddordeb

Dim datganiadau.

3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd

Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 5^{ed} Rhagfyr 2024.

5. Materion yn Codi

- 1. Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
- 2. Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
- 3. FC29/4 Pentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
- 4. Materion Gorfodaeth Cynllunio caeau yn Idole** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
- 5. Grid Cenedlaethol – Is-orsaf yn Ardal Llandyfaelog** – Derbyniodd y Cyngor ddiweddariad ar y mater ynghyd â chadarnhad y byddai cyfarfodydd ymgynghori yn cael eu cynnal yn y Gwanwyn yn Llandyfaelog. Nodwyd.
- 6. Materion diogelwch ffyrdd ym Mancycapel** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
- 7. Cadwyn Cadeirydd y Cyngor** – Parhaodd y Clerc i geisio prisiau bathodynau enw newydd ar gyfer y Gadwyn.
- 8. Torri coed yng Nghroesyceiliog - FC 29 4/1 a 4/2** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
- 9. Cynigion cyfyngiadau aros ar gyfer Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin – Mynegodd y Cyng Meinir James ei diddordeb yn y mater hwn** - Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
- 10. PL/04973 - 1-4 Gelligaeros Trading Estate, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA32 8DJ** - Cafwyd cadarnhad fod y mater i fynd gerbron Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor Sir yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Nodwyd.
- 11. Prosiect Plannu Cennin Pedr** – Nododd y Cadeirydd fod diwrnod plannu llwyddiannus wedi'i gwblhau yng Nghwmffrwd ar 14^{fed} Rhagfyr. Roedd plannu coed i'w drefnu gan yr Atgyweiriwr.

12. **Maesglasnant, Cwmffrwd** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd problemau parhaus gyda goleuadau troedffordd ar yr ystâd. Nodwyd.
13. **Pryderon ynghylch cyflymder traffig o Pibwrlwyd yng Nghyffordd Heol Bolahaul** – Roedd y Cyngor yn aros am ymateb o'r Cyngor Sir ar y mater. Nodwyd.
14. **Rhoddion a wnaed yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr** – Derbyniwyd llythyr diolch oddi wrth Apêl Teganau Cyngor Sir Caerfyrddin. Nodwyd.
15. **Goleuadau llwybr troed yn Llandyfaelog** – Nodwyd bod y golau ar gopa Bryn Llandyfaelog yn parhau i fod allan o weithrediad.
16. **Cŵn strae yn Idole** – Parhaodd y mater i gael ei fonitro. Nodwyd.
17. **Pyllau dŵr rhwng cyffordd yr A484 (Idole) a Chroesyceiliog** – Roedd gwaith wedi ei wneud gan y Cyngor Sir yn yr ardal, er bod angen datrysiaid parhaol.
18. **Arwydd 40mya ar yr A484 yn Cherry Trees** – Bydd cwblhau'r gwaith yn y lleoliad hwn yn cael ei wirio.
19. **Marciau ffordd 30mya yn Llandyfaelog** - Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.

6. Gohebiaeth

1. **Un Llais Cymru** – Ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar ei chynigion i ddiwygio'r broses prynu gorfodol a rheolau iawndal. Nodwyd.
2. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Diweddariad Cyngorau Tref a Chymuned. Nodwyd.
3. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cau ffordd mewn argyfwng yn Heol Nantyglassdwr o ddydd Iau 19^{eg} Rhagfyr 2024 tan ddydd Mercher 8^{fed} Ionawr 2025. Nodwyd.
4. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cadarnhad o daliad 1/3 o braesept 2024-25 sef £9,106.67. Nodwyd.
5. **Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru** – Ymgynghoriad ar ei Adroddiad Cynigion Diwygiedig mewn perthynas â'r adolygiad o Etholaethau'r Senedd yng Nghymru. Nodwyd.
6. **Un Llais Cymru** – Digwyddiadau hyfforddi Ionawr – Mawrth 2025. Nodwyd.
7. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth am Ddiwrnod Myfyrio COVID-19 2025 a fyddai'n digwydd ddydd Sul 9^{fed} Mawrth 2025. Nodwyd.
8. **Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys** – Ymgynghoriad ar Gyllideb Plismona 2025-26. Nodwyd.
9. **Banc Barclays** – Datganiadau. Cafodd y cysoniad banc ei gydlofnodi gan Cyngorydd Eifion Jones.

7. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor

1. **Adroddiad Ymchwiliad Cae Chwarae** – Cadarnhaodd y Clerc derbyniad yr adroddiad archwiliad cae chwarae blynyddol ar gyfer Cae Idole oddi wrth y Play Inspection Company. Ni nodwyd unrhyw faterion uwchlaw risg isel. Roedd y rhain wedi'u trosglwyddo i'r Atgyweiriwr i weithredu arnynt lle bo'n briodol. Cytunwyd talu'r anfoneb taliadau o £90.25 ynghyd â TAW.
2. **Mainc Cwmale** - Nododd y Clerc fod y fainc wedi ei difrodi ac wedi ei symud gan yr Atgyweiriwr. Roedd yr unigolyn a roddodd y fainc wedi cysylltu â chynnyg i brynu un newydd. Cytunwyd y byddai'r fainc yn cael ei disodli gan y

fainc yn Neuadd Llandyfaelog, a allai wedyn gael ei disodli gan fainc i'w rhoi gan Alan Jones, Star Forge.

- 3. Cytundeb Torri Gwair 2025** - Dosbarthodd y Clerc dogfen dendro ddrafft ar gyfer y cytundeb torri gwair yng Nghae Idole a Glanmorlais ar gyfer 2025. Cymeradwyodd y Cyngor y tendr a bydd yn gofyn am prisiau yn barod ar gyfer y cyfarfod nesaf.

8. Cytundeb yr Atgyweiriwr

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio ym mis Rhagfyr gyda chyfanswm cost o £616.00 yn cael ei gytuno. Darparwyd cynnig codi tâl fesul awr gan yr Atgyweiriwr ar gyfer y flwyddyn 2025-26, bydd y Clerc yn trafod hyn ymhellach gyda'r contractwr. Cytunwyd y byddai gwahoddiadau yn cael eu dosbarthu ar gyfer tendrau ar gyfer y contract ar gyfer y flwyddyn 2025-26.

9. Adroddiad Cyllid 2024-25

Cyflwynodd y Clerc adroddiad cyllideb 3ydd chwarter ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2024-25 Cynhaliodd y Cyngor y gwaith monitro cyllideb chwarterol a derbyniwyd yr adroddiad.

Cynhaliodd y Cadeirydd archwiliad o gofnodion ariannol 2024-25.

10. Adroddiad Praesept, Blaenoriaethau a Chyllideb 2025-26

Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a nododd y sefyllfa ariannol debygol ar gyfer diwedd Blwyddyn Ariannol 2024-25.

Ystyriodd y Cyngor yr adroddiad a chytunodd i ofyn am braesept o £31,000 ar gyfer 2025-26 (£27,320 yn 2024-25). Byddai'r swm yn arwain at Dreth Gyngor Band D o £47.44 (£41.68 yn 2024-25). Awdurdodwyd y Cadeirydd a'r Clerc i gwblhau a llofnodi'r gwaith papur angenrheidiol i'w ddychwelyd i Gyngor Sir Caerfyrddin.

Cadarnhaodd y Clerc ei bod yn ymarferiad da i gadw tua 3 mis i flwyddyn o precept mewn arian wrth gefn cyffredinol a dylai clustnodi unrhyw gronfeydd ymhellach mewn arian wrth gefn penodol.

Gwnaed Cyngor ystyried ei blaenoriaethau ar gyfer arian wrth gefn y Cyngor. Cytunwyd arian wrth gefn penodol fel a ganlyn:

Gwelliannau Goleuadau Cyhoeddus (gan gynnwys cost flynyddol yr uwchraddiad Goleuadau LED o £1,077.25)	£4,000
Gwelliannau Amwynderau	£3,000
Ardal Chwarae ac Amwynder Idole	£7,000

11. Strategaeth Buddsoddi 2025-26

Cyflwynodd y Clerc y Strategaeth Fuddsoddi drafft. Cymeradwywyd y Strategaeth fel Polisi'r Cyngor ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2025-26.

12. Cynllunio

1. **PL/08618** - Codi adeilad amaethyddol ffrâm borthol ar gyfer y storfa slyri concrit bresennol - Gelliddu, Bancycapel, Caerfyrddin, SA32 8EB. Dim Gwrthwynebiadau.

13. Cyfrifon

Cytunwyd y taliadau ganlynol:

1.	Disgrifiad	Cyflog	Costau	Cyfanswm Gros	Treth wedi tynnu ffwrdd	YG wedi tynnu ffwrdd	Cyflog Net
Arfon Davies	Cyflog Rhagfyr a costau	£751.49	£26.00 £7.00 £16.20	£800.69	£310.20		£490.49

2. **Cyllid a Tollau EM** £1,011.80 Hydref - Rhagfyr
3. **Michael Leefe** £616.00 Atgyweiriwr Rhagfyr (gweler eitem 9)
4. **Cyngor Sir Caerfyrddin** £1,292.70 Costau gwelliannau Golau LED 2024-25 (£1,077.25 gyda TAW £215.45)
5. **Play Inspection Company** £108.30 Cost archwiliad cae chwarae (gweler eitem 7.1) (£90.25 gyda TAW £18.05)

14. Materion arall a godwyd gan aelodau

1. Nodwyd materion llifogydd yn Heol y Lan gydag ymweliad safle y diwrnod hwnnw gyda Swyddogion y Cyngor Sir i geisio atebion.
2. Roedd cwteri wedi'u blocio yng Nghilfeithy Uchaf wedi'u hadrodd i'r Cyngor Sir a bydd adnewyddiad yn cael ei gofyn.
3. Bydd difrod i'r bin gwastraff yn Fferm Capel yn cael ei asesu gyda bin newydd i'w archebu os oes angen.
4. Nodwyd bod angen atgyweirio plannwr arwydd pentref Pibwrlwyd.
5. Nodwyd bod cebl yn achosi berygl baglu ar y palmant gyferbyn â Power Cut yng Nghwmffrwd.
6. Bydd mainc Pibwrlwyd yn cael ei gwirio i sicrhau ei bod yn ddiogel yn y ddaear.
7. Nodwyd bod Swper flynyddol yr Eisteddfod ar y 14^{eg} o Ionawr.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 6^{ed} Chwefror 2025.